# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 72(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Asesu ar gyfer Dysgu – dull gwahanol yng Nghymru

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymgynghoriad ar God Erlyn Llywodraeth Cymru

(30 munud)

## 7 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Gohiriwyd tan 14 Mehefin

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6316** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu ymrwymiad Prif Weinidog y DU i ddileu tollau ar Bontydd Hafren, a fydd yn sicrhau hwb o £100 miliwn i economi Cymru.

2. Yn cydnabod yr angen am fargen dwf i ogledd Cymru a phwysigrwydd hyn ar gyfer ffyniant yn y rhanbarth yn y dyfodol.

3. Yn nodi pwysigrwydd datblygu bargeinion rhanbarthol tebyg ar gyfer cymunedau gwledig yng nghanolbarth Cymru er mwyn sicrhau bod ein gwlad yn gweithio i bawb.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu rôl arwain Llywodraeth Cymru wrth iddi gydweithio â phartïon eraill i ddileu tollau ar Bontydd Hafren, a fydd yn sicrhau hwb o £100 miliwn i economi Cymru.

2. Yn nodi'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi newid ei meddwl o safbwynt cefnogi'r cynnig i ddileu tollau Pontydd Hafren.

3. Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU a phartneriaid ar bob ochr i gyflawni bargen dwf i ogledd Cymru a sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy i mewn i bob rhan o Gymru.

4. Yn nodi'r ffaith mai un rhan yn unig o gynllun Llywodraeth Cymru i gynyddu twf economaidd a gwella'r system drafnidiaeth yng Nghymru yw dileu'r tollau. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gwaith sydd eisoes ar droed i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth, a hynny'n unol â rhwymedigaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod blaenoriaeth frys trydaneiddio Llinell Reilffordd Arfordir y Gogledd, Prif Linell Reilffordd De Cymru a Llinellau Rheilffordd y Cymoedd a'u pwysigrwydd o ran ffyniant eu rhanbarthau perthnasol yn y dyfodol.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud penderfyniad cadarnhaol o ran ariannu Morlyn Llanw Bae Abertawe er mwyn sicrhau twf economaidd yn yr ardal honno.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â Chyngor Sir Penfro i ddileu tollau ar Bont Cleddau yn Sir Benfro fel hwb economaidd i'r ardal.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Tynnwyd yn ôl

## 10 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6318** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Rhaglen yr Wrthblaid Plaid Cymru a'r ymrwymiad i sefydlu cwmni ynni cenedlaethol, Ynni Cymru.

2. Yn nodi papur ymchwil gan Simon Thomas ar gynigion i greu Ynni Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Ynni Cymru, a fydd yn cael ei redeg fel cwmni di-ddifidend hyd braich o Lywodraeth Cymru, gan fuddsoddi elw mewn gwella gwasanaethau a phrisiau i gleientiaid.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i greu rhwydwaith o gridiau ynni lleol.

'Rhaglen yr Wrthblaid Plaid Cymru'

'Ynni Cymru - Pŵer i Gymru'

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

a) defnyddio ynni mewn modd mor effeithlon â phosibl;

b) lleihau’r ddibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil; ac

c) rheoli’r broses o drosglwyddo i economi carbon isel er mwyn cyflawni’r manteision mwyaf posibl i Gymru a diogelu’r bobl sydd fwyaf agored i niwed.

2. Yn cydnabod cyfraniad rhaglenni a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, fel Cartrefi Clyd, Nyth ac Arbed, Ynni Lleol, Twf Gwyrdd Cymru a’r rhaglen Byw yn Glyfar o safbwynt ysgogi a chefnogi’r trosglwyddiad cynnar i economi carbon isel.

3. Yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru o safbwynt cefnogi gwaith arloesol ym maes cynhyrchu ynni, fel cynllun peilot lleol a chymunedol Bethesda ar gyfer gwerthu ynni, y cynllun dŵr o bwll glo ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chydweithio â diwydiant a’r byd academaidd.

4. Yn nodi’r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws Cymru er mwyn trafod cynigion ar gyfer cwmni ynni i Gymru.

## 11 Cyfnod pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6315** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Amddiffyn Cymru i'r genhedlaeth nesaf.

Yr heriau presennol sy'n wynebu Cymru, ac na welwyd erioed o'r blaen, gan gynnwys y berthynas â gweddill y byd, anghydraddoldeb economaidd, a'r angen am weithredu cadarnhaol ar frys o ran gwella canlyniadau i'r genhedlaeth nesaf.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Mai 2017 i'w hateb ar 24 Mai 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1.** Huw Irranca–Davies (Ogwr): Pa sicrwydd y gwnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ei roi i sicrhau y caiff yr amddiffyniadau amgylcheddol sydd yn eu lle o dan ddeddfwriaeth yr UE, yn arbennig cyfarwyddebau natur, eu cadw yng Nghymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0140(ERA)

**2.** David Melding (Canol De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg ffrwythau a llysiau yng Nghymru? OAQ(5)0150(ERA)

**3.** David Rees (Aberafan): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cynnydd a gaiff ei wneud i wella ansawdd aer ledled Cymru? OAQ(5)0147(ERA)

**4.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau achosion o ollwng sbwriel? OAQ(5)0146(ERA)

**5.** Michelle Brown (Gogledd Cymru): Beth yw bwriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli pysgota mewndirol ac arfordirol ar ôl gadael yr UE? OAQ(5)0149(ERA) **TYNNWYD YN ÔL**

**6.** David Melding (Canol De Cymru): Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella ôl troed ecolegol amgylcheddau trefol Cymru? OAQ(5)0144(ERA)

**7.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y risg o lifogydd ar afon Tawe? OAQ(5)0137(ERA)

**8.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd busnesau amgylcheddol yng Nghymru? OAQ(5)0139(ERA)

**9.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wella lles anifeiliaid yng Nghymru? OAQ(5)0148(ERA)

**10.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i baratoi ar gyfer yr adeg pan gaiff arian ei dynnu yn ôl o Gynllun Datblygu Gwledig 2020? OAQ(5)0151(ERA)

**11.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo pobl sydd mewn tlodi tanwydd? OAQ(5)0138(ERA)

**12.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnal a chadw llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau yng Nghymru? OAQ(5)0141(ERA)

**13.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y data a ryddhawyd gan y dangosfwrdd TB? OAQ(5)0143(ERA)

**14.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r effaith a gaiff y defnydd ehangach o geir trydanol ar lygredd aer yng Nghymru? OAQ(5)0145(ERA)**W**

**15.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i fynd i'r afael â chlymog Japan yng Nghymru? OAQ(5)0136(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnydd y cynnig gofal plant ar gyfer Cymru. OAQ(5)0148(CC)

**2.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau i leddfu effaith negyddol unrhyw brosesau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i ddiwygio nawdd cymdeithasol? OAQ(5)0146(CC)

**3.** **David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwreiddio egwyddorion a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei gwaith? OAQ(5)0145(CC)

**4.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion llety y gymuned Sipsiwn a Theithwyr? OAQ(5)0142(CC)

**5.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r sefyllfa ddigartrefedd yng Nghymru? OAQ(5)0155(CC) **TYNNWYD YN ÔL**

**6.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod o ran llywio polisi Llywodraeth Cymru ar blant? OAQ(5)0150(CC)

**7.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i rwystro plant yng Nghymru rhag dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod? OAQ(5)0147(CC)

**8.** **David Melding (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o adroddiad Breuddwydion Cudd Comisiynydd Plant Cymru? OAQ(5)0144(CC)

**9.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu cartrefi newydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0152(CC)

**10.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Cefnogi Pobl? OAQ(5)0141(CC)

**11.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio yng Nghasnewydd? OAQ(5)0153(CC)

**12.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lefel bresennol gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerdydd? OAQ(5)0154(CC)

**13.** **Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i wasanaethau'r swyddfa bost yng Nghymru? OAQ(5)0151(CC)

**14.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth yw blaenoriaethau tai Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro dros y 12 mis nesaf? OAQ(5)0140(CC)

**15.** **Nathan Gill (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ofalwyr maeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0143(CC)